# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 15FED MAWRTH, 2021**

**I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 5 Mawrth 2021)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
Dafydd Owen
Elfed Williams
W. Gareth Roberts
Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Gareth Tudor Morris Jones
Elin W Jones

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Jason Wayne Parry
Eryl Jones-Williams
Angela Russell

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Gareth Williams

## Aelod Unigol (2)

Y Cynghorydd W Roy Owen
Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2020 / 21

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2020 / 21

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 2il o Ragfyr 2019 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU 6 - 40

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd;

1. 26-01-21
2. 05-01-21
3. 26-11-20
4. 09-03-20
5. 18-12-19
6. 05-11-19
7. 20-09-19

## 8. EFFAITH YR ARGYFWNG COVID 19 AR WASANAETHAU TRWYDDEDU 41 - 43

I ystyried yr adroddiad

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 02.12.19**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Roy Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, W Gareth Roberts, Elfed W. Williams (Cadeirydd) a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Angela Russell

Croesawyd y Cynghorydd W Gareth Roberts fel aelod newydd i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Medi 9fed 2019 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU**

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgor a gynhaliwyd 20.06.19

Dechreuodd y cyfarfod am 10.50am a daeth i ben am 10:55am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 26.01.2021

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Anwen Hughes (Cadeirydd), Gareth Jones ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lis Williams (Heddlu Gogledd Cymru) a Sharon Dysart (Ymgynghorai Lleol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Y Llew Coch, Porthmadog**

**Ar ran yr eiddo:** Darren Kelly (Ymgeisydd – Admiral Taverns Ltd)
Peter Ashcroft (Cyfreithiwr ar ran Admiral Taverns Ltd)

**Eraill a wahoddwyd:** Ffion Muscroft - Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
Cyng. Nia Jeffreys - Aelod Lleol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 10 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywio trwydded eiddo ar gyfer Y Llew Coch, Porthmadog. Gwnaed y cais mewn perthynas ag addasiadau i gynlluniau mewnol y tŷ tafarn ac i gynnwys ardal allanol fel man trwyddedig. Adroddwyd, er bod yr ardd gwrw wedi ei thrwyddedu yn barod, gwnaed cais i ymestyn ardal drwyddedig yr eiddo i gynnwys strwythurau ar steil cytiau glan y môr gydag alcohol yn cael ei archebu a'i weini drwy'r ffenest yng nghefn yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Amlygwyd bod cais cynllunio diweddar (C20/0076/44/LL) i ddarparu 5 cwt glan y môr a drws ar ffurf 'hatch' i'r prif adeilad wedi ei ganiatáu yn unol ag amodau oedd yn cynnwys:

- Ni chaiff y cytiau pren a ganiateir drwy hyn (ac eithrio'r gysgodfa ysmygu a ddangosir ar y cynlluniau safle presennol) fod yn agored i gwsmeriaid tu allan i amseroedd a ganlyn 9:00 y bore hyd at 21:00 yr hwyr mewn unrhyw un diwrnod.
- Rhaid cau'r agoriad gweini newydd tu allan i amseroedd a ganlyn 9:00 y bore hyd 21:00 yr hwyr mewn unrhyw un diwrnod

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod un gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd yn mynegi pryder ar faterion gwrthgymdeithasol o ran sŵn, niwsans cyhoeddus, materion glanweithiol a throsedd ac anrhefn. Cefnogwyd y gwrthwynebiad gyda thystiolaeth gyfoes berthnasol a oedd yn cynnwys clipiau fideo byr yn ogystal â lluniau yn nodi'r amser a'r dyddiadau. Roedd yr Aelod Lleol yn amlygu pryder sŵn a niwsans cyhoeddus ar ran preswylwyr cyfagos a'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn nodi'r angen i werthiant alcohol tu allan a defnydd o'r cytiau traeth ddod i ben am 21:00. Nid oedd gan y Cyngor Tref, Yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân wrthwynebiadau.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn ystyried yr angen i osod unrhyw ragofalon ychwanegol ar amodau'r drwydded os byddent yn penderfynu caniatáu'r cais yn unol â sylwadau Gwarchod y Cyhoedd a gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor ynglŷn â rheolaeth y drws cefn, rheolaeth giât yr ardd gwrw ac uchafswm nifer yn defnyddio'r cabanau (angen rhagweld faint sydd yn ddiogel), amlygodd mai allanfa dân oedd y giât - nid oedd yn cael ei defnyddio fel mynedfa / allanfa i'r cyhoedd. Yng nghyd-destun niferoedd yn y cabannau nid oedd yn siŵr o'r cyfanswm posib, ond amlygodd y byddai'r sefyllfa yn cael ei monitro yn rheolaidd gydag asesiad canllawiau covid 19 yn cael ei gweithredu yn ystod yr argyfwng. Awgrymodd mai ymateb i reoliadau cadw pellter cymdeithasol yn ystod argyfwng covid 19 oedd defnydd y cabanau. Ategodd y byddai'n trafod y dystiolaeth fideo gyda thenant y dafarn.

Nododd Cyfreithiwr ar ran Admiral Taverns y byddai'r ardal allanol yn cael ei rheoli gyda theledu cylch cyfyng, gyda staff yn cerdded o gwmpas yr ardal a thrwy ddefnyddio'r agoriad gweini i gadw golwg o'r sefyllfa. Ategodd bod y cwmni yn gweithredu'n gyfrifol ac y byddent yn ystyried diogelwch cwsmeriaid drwy liniaru unrhyw risgiau posib. Nododd bod hawl gan yr is-bwyllgor i gynnig uchafswm defnydd cabannau neu y gellid ystyried cytundeb ymarferol. Awgrymodd nad oedd unrhyw reswm dilys dros wrthod y cais.

c) Mewn ymateb, nododd yr Is-bwyllgor y byddai dymuniad ganddynt weld asesiad risg yn cael ei gwblhau wedi i'r cyfnod clo ddod i ben a'i bod yn annog y tenant i wneud defnydd da o'r teledu cylch cyfyng gan gadw recordiadau am gyfnod o 6 mis.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr.

Swyddog Iechyd yr Amgylchedd,

- Nad oedd modd ymchwilio i bryderon sŵn drwy osod monitor ar y safle oherwydd rheoliadau covid 19
- Bod angen rheolaeth effeithiol – cau drysau, cau ffenestri i leihau sŵn
- Awgrym i gau'r ardd gwrw am 21:00

Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Lleol)

- Bod y dafarn wedi ei lleoli yng nghanol strydoedd o dai teras - o ganlyniad byddai unrhyw sŵn yn cario yn bell
- Bod cyfnod covid 19 wedi bod yn heriol i fusnesau lleol - ei bod yn datgan cefnogaeth i fusnesau lleol sydd wedi gwrthsefyll cyfnod anodd iawn
- Edmygu'r cynllun arloesol o gynnig gwasanaeth drwy ddefnydd cabannau glan y môr
- Bod dyletswydd arni fel Aelod Lleol i amlygu pryderon preswylwyr cyfagos o gwynion sŵn a niwsans cyhoeddus
- Derbyn yr awgrym i ystyried rheoli niferoedd fyddai'n defnyddio'r ardd gwrw
- Angen sicrhau bod y giât i'r ardd gwrw wedi cau fel nad oes modd i'r cyhoedd fynd nôl ac ymlaen
- Mewn ymateb i sylw nad oedd angen lle i hwyluso gwerthiant cyffuriau amlygodd nad oedd yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais

d) Wrth grynhoi ei achos ac ymateb i'r sylwadau nododd yr ymgeisydd

- Bod rheoli a goruchwylio gerddi cwrw yn anodd, ond ei fod yn hyderus bod Admiral Tavers yn gallu cyfarch y materion a godwyd
- Buasai'r Heddlu wedi cynnig sylwadau pe byddent â phryderon
- Bydd teledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol
- Ni fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae tu allan
- Bydd y drysau ar ffenestri yn cau ar ôl 21:00
- Bydd y giât yn cael ei defnyddio fel allanfa dân yn unig

dd) Ymneilltuodd yr ymgeisydd ynghyd a chynrychiolydd cyfreithiol y cwmni, yr ymgynghorai, y Rheolwr Trwyddedu a Swyddog yr Amgylchedd o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

e) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu (gan gynnwys tystiolaeth fideo a lluniau), yn ogystal â sylwadau llafar a dderbyniwyd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais i wyro'r drwydded yn ddarostyngedig i gynnwys amodau'r Atodlen Weithredol isod;**

**Yn rhan (b) ychwanegir y canlynol:**

- **"Bydd yr eiddo yn rhedeg a chynnal sustem TCC yn gwylio'r ardaloedd mewnol ac allanol. Bydd yr eiddo yn cadw recordiadau o'r sustem am hyd at 28 diwrnod. Bydd yr eiddo yn darparu copïau o recordiadau ar gais i'r Awdurdod Trwyddedu neu'r Heddlu.**

- **Bydd yr eiddo yn cadw sensor ar y drws tân cefn a leolir yn yr ardal allanol fydd yn seinio rhybudd tu mewn i'r dafarn os agorir y drws heb ganiatâd.**
- **Cymerir agwedd dim goddef tuag at ddefnyddio cyffuriau."**

**Yn rhan (d) ychwanegir y canlynol:**

- **"Bydd y bar 'hatch' tu allan yn cau am 21:00**
- **Bydd y cytiau traeth tu allan ddim yn cael eu defnyddio gan gwsmeriaid o 21:00 ymlaen.**
- **Bydd yr eiddo yn gosod arwyddion priodol yn gofyn i gwsmeriaid barchu eiddo cyfagos drwy beidio ag achosi unrhyw niwsans sŵn wrth ymadael â'r eiddo.**
- **Bydd yr eiddo yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r safle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau trwydded."**

**Yn rhan (e) ychwanegir y canlynol:**

- **"Rhaid i bob plentyn fod yng nghwmni oedolyn bob adeg."**

**Nodwyd nad oedd angen ehangu'r ardal drwyddedig i gynnwys yr ardal allanol yn y cynllun gyda'r ffurflen gais, gan fod yr ardal honno wedi ei chynnwys fel ardal drwyddedig yn y drwydded sydd eisoes mewn bodolaeth.**

Diolchwyd i'r holl bartïon â diddordeb am gyflwyno sylwadau ar y cais. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau.

Nodwyd nad oedd Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Tref Porthmadog, y Gwasanaeth Tan na'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried pryderon am faterion gwrthgymdeithasol o ran sŵn, materion glanweithiol a throseddu cyfeiriwyd at ddigwyddiadau o gwsmeriaid yn defnyddio'r cabanau glan môr, yn cadw sŵn ac yn yfed tan 22:00 gan honni bod hyn yn groes i amod cynllunio. Amlygwyd bod hyn wedi digwydd ar 5 achlysur (nos Wener 20/11/20 Sadwrn 21/11/20, Gwener 27/11/20, Sadwrn 28/11/20, Iau 03/12/20). Cyflwynwyd tystiolaeth ar ffurf recordiadau fideo ffôn symudol a lluniau ffôn i gefnogi'r sylwadau. Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau gan yr Aelod Lleol yn lleisio pryder ar ran preswylwyr cyfagos o ran defnydd allanol yr ardd gwrw.

Tra bod yr Is-bwyllgor yn fodlon bod rhain yn bryderon diffuant, roeddynt yn cyfeirio at bryderon o ddefnydd y cabanau glan môr yn yr ardd gwrw tan 22:00 a hwyrach. Fodd bynnag, roedd y cais yn gofyn am gyfyngu defnydd o'r cabanau hyd at 21:00 yn unig. O ganiatáu y cais, ni ystyriwyd y bydd problemau sŵn yn hwyr yn y nos i'r dyfodol gan na fyddai'r cabanau i'w defnyddio ar ôl 21:00. O ganlyniad nid yw'r sylwadau gwrthwynebu ar sail sŵn mewn gwirionedd yn berthnasol i'r cais.

Gwyliwyd clipiau fideo tua 30-eiliad o hyd. Nid oedd ansawdd y fideos yn ddigon clir i amlygu pellter ac nid oedd yn glir pa ddyddiadau roedd y fideos yn berthnasol iddynt. Ni chafodd yr Is-bwyllgor gyfle i holi'r sawl a'u recordiodd gan nad oedd yn bresennol yn y gwrandawiad. O ganlyniad teimlai'r Is-bwyllgor bod y fideos yn gyfyngedig iawn o ran gwerth tystiolaeth.

Derbyniwyd bod posibilrwydd y gallai sŵn fyddai'n tarfu o'r eiddo arwain at niwsans cyhoeddus ond hyd yn oed, gyda sylwadau perthnasol, mae "niwsans cyhoeddus" yn derm technegol sydd ag ystyr arbennig iddo mewn cyfraith achos. O dderbyn cyngor

cyfreithiol, daeth yr Is bwyllgor i ddeall na fyddai ychydig oriau o sŵn dim amlach na dwywaith mewn wythnos, mewn ardal breswyl ddwys ei phoblogaeth gydag ond un gwrthwynebiad uniongyrchol oedd wedi dod i law, yn debygol o groesi'r rhiniog angenrheidiol o'i ystyried fel "niwsans cyhoeddus".

O ran y pryderon am drosedd ac anrhefn a glanweithdra, ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth o ddigwyddiadau penodol i gefnogi'r sylwadau hyn.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, a chaniatawyd y cais i wyro.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00am a daeth i ben am 12:40pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 05.01.2021

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Elfed Williams (Cadeirydd), Eryl Jones-Williams a Jason Wayne Parry

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lis Williams (Heddlu Gogledd Cymru) a Jonathan Evans (ymgynghorai lleol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Abersoch Diner, Stryd Fawr, Abersoch**

**Ar ran yr eiddo:** Gavin Hancock (Ymgeisydd)

**Eraill a wahoddwyd:** Moira Duell-Parry - Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
Cyng Dewi Roberts (Aelod Lleol)
Patricia Meyrick, Einir Wyn, Mary Marsden, Terry Evans, Paul Evans, Donna Jones a Cherry Steele (Ymgynghorai Lleol)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywio trwydded eiddo ar gyfer Abersoch Diner, Stryd Fawr, Abersoch. Gwnaed y cais mewn perthynas ag ymestyn oriau agor, gwerthu alcohol ar yr eiddo a darparu cerddoriaeth wedi recordio ar yr eiddo.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Amlygwyd, bod yr ymgeisydd, yn dilyn derbyn sylwadau ac amodau gan Adran Gwarchod y Cyhoedd a sawl gwrthwynebiad i'r cais, wedi cyfaddawdu i beidio â defnyddio'r ardal allanol ar ôl 6:00yp a bod rhaid i'r drysau a'r ffenestri fod wedi cau wrth chwarae cerddoriaeth ar lefel sŵn cefndirol yn unig. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded. Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan nodi nad oedd gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân wrthwynebiadau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Ei fod wedi cytuno i gyfaddawd yn dilyn trafodaethau
- Ei fod wedi cytuno i beidio defnyddio'r ardal allanol ar ôl 6:00yh
- Ei fod yn ymwybodol y bydd yr amodau yn cael eu cynnwys ar y drwydded petai yn cael ei chaniatáu
- Ei fod angen yr addasiadau er mwyn cystadlu gyda busnesau tebyg ar Stryd Fawr Abersoch

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr is-bwyllgor, nododd yr ymgeisydd bod y wal derfyn rhyw 10 - 15m o'r eiddo cyfagos ac nad oedd wedi derbyn cwynion am sbwriel a sŵn yn y gorffennol.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiadau i ganiatáu trwydded gan ategu at sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr.

Swyddog Iechyd yr Amgylchedd,

- Bod yr ymgeisydd, yn dilyn trafodaethau, wedi cytuno i beidio â defnyddio'r ardal allanol ar ôl 6:00yp a bod rhaid i'r drysau a'r ffenestri fod wedi cau wrth chwarae cerddoriaeth ar lefel sŵn cefndirol yn unig.
- Bod y tŷ bwyta eisoes yn darparu bwyd ond byddai ychwanegiad i'r ardd gefn yn rhyddhau mwy o le
- Bod argymhelliad i wrthod cais cynllunio tebyg i eiddo tu cefn i'r adeilad ar sail system awyru annigonol a thramwyo wedi amlygu pryderon i'r cais yma
- Bod y ty bwyty yn agos i dai cyfagos - bod yr eiddo i'r cefn o'r tŷ bwyta yn uwch na'r ardd ac felly bydd sŵn yn cario. Er bod modd rheoli sŵn cerddoriaeth ni ellir rheoli lleisiau. Bydd rhaid i'r ymgeisydd reoli hyn yn effeithiol
- Bod y lon tu cefn i'r tŷ bwyta yn gul iawn
- Ei bod wedi asesu y cais fel tŷ bwyta - yn darparu pryd o fwyd/ lluniaeth ysgafn i deuluoedd ac nid fel tafarn
- Na fydd bwyd yn cael ei ddarparu ar ôl 11pm - bar yn unig ar ôl hyn
- Eu bod yn gefnogol i'r busnes ac felly yn gosod amodau fel bod modd rheoli'r amser a defnydd yr ardal tu allan - yn gyfle i'r ymgeisydd ddangos ei allu i reoli sŵn
- Bod y safle wedi ei ddynodi fel 'ardal busnes'

Y Cynghorydd Dewi Roberts (Aelod Lleol)

- Bod llawer o sŵn ar y Stryd Fawr ar y penwythnosau
- Bod defnydd o'r ardd gefn yn ymestyn i ganol ardal ddomestig fyddai yn cael effaith ddifrifol ar breifatrwydd y cymdogion - bod defnydd o'r ardd yn anaddas
- Bod trafferthion yn codi wrth i bobl newid cymeriad wrth yfed
- Bod tai bwyta a thafarndai digonol yn y pentref
- Cwynion yn debygol o gael eu cyflwyno iddo ef a'r Heddlu lleol

Patricia Meyrick

- Bod yr eiddo wedi cael ei sefydlu ar gyfer gwerthu hufen ia
- Nad yw'r adeilad yn addas ar gyfer tŷ tafarn
- Ni fydd yn caniatáu defnydd o'r lon i'r cefn o'r adeilad ar gyfer ceir na busnes - bydd yn cloi'r giât os bydd raid

Terry Evans

- Y cais am drwydded hyd at 00:30 - hyn yn gynnydd sylweddol mewn oriau agor
- Byw cefn wrth gefn ac yn amlygu pryder am sŵn o ddefnydd yr ardd

Mary Marsden

- Bod y lon i'r cefn yn mesur 9 troedfedd
- Bydd sŵn yn cario dros y waliau a mwg os bydd rhai yn ysmygu
- A oes angen trwydded hyd at hanner nos? A oes modd caniatáu hyn ar gyfer digwyddiadau penodol yn unig? Gallai'r tŷ bwyta gau am 10:30pm
- Bod ei phryderon wedi eu lliniaru ychydig o wybod bod rhaid i'r ardal allanol gau am 6:00yh
- Sut bydd defnydd o'r ardd yn cael ei rheoli? Angen gweld trefniadau cadarn o reolaeth safle
- Pryder o gynnydd mewn sŵn o fewn ardal breswyl

Cherry Steele

- Dim byd i ychwanegu i'r pryderon sydd eisoes wedi eu hamlygu

Donna Jones

- Bydd sŵn yn cario i fyny at eiddo ei rhieni
- Bod ei rhieni mewn oed ymddeol ac eisiau ymlacio heb gael eu heffeithio gan sŵn
- Bod gormod o fynd a dod ar hyd y lon i'r cefn o'r adeilad

Paul Evans

- Bod busnes wedi bodoli ar y safle erioed ond dim defnydd i'r iard / ardd gefn
- Yn erbyn y cynnig o gael byrddau yn yr ardd gefn
- Bydd sŵn yn cario
- Rheini yn mynd yn hŷn - pryder am yr effaith y bydd hyn yn cael ar eu preifatrwydd a'u hymddeoliad

Einir Wyn - Clerc Cyngor Cymuned Llanengan

- Ategu at y sylwadau sydd eisoes wedi cael eu hamlygu
- Gormod o dafarndai eisoes yn y pentref
- Diffyg rheolaeth
- Bod yr ardal i'r cefn yn fach iawn
- Bod dim rheswm i'w gael ynghanol tai
- Y busnes wedi rhedeg fel caffi ar hyd y blynyddoedd
- Nid yw yn ddigon o adeilad i fod yn dafarn

d) Wrth grynhoi ei achos ac ymateb i'r sylwadau nododd yr ymgeisydd y byddai mynediad i'r ardd ac i'r iard gefn yn cau am 6:00pm drwy gloi'r fynedfa. Ategodd nad oes mynediad i'r ardd a'r iard o'r lon gul ac felly gellid ond mynd i mewn ac allan drwy'r drws ffrynt sydd ar y Stryd Fawr. Bydd y lon yn cael ei defnyddio ar gyfer casglu sbwriel yn unig. Amlygodd bod busnesau tebyg yn yr ardal fydd o bosib yn creu sŵn. Mewn ymateb i orchwylio'r ardal gefn, cadarnhaodd y byddai'r drws yn cael ei gloi.

dd) Mewn ymateb i'r sylwadau nododd y Rheolwr Trwyddedu'r sylwadau canlynol:

- Ei bod yn derbyn pryderon y trigolion lleol a'r cyngor cymuned
- Bod y lleoliad yn gyfyng iawn ac wedi ei leoli o fewn ardal sensitif
- Bod gan yr is-bwyllgor yr hawl i osod amod i sicrhau'r hyn sydd wedi ei addo gan yr ymgeisydd a bod modd geirio'r amodau hynny i gynnwys y pryderon fel bod rheolaeth yn bosib

Ymneilltuodd yr ymgeisydd, yr ymgynghorai, y Rheolwr Trwyddedu a Swyddog yr Amgylchedd o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

ff) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar a dderbyniwyd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais a gwyro'r drwydded fel a ganlyn:**

- **Oriau agor: Sul-Sad 08:00-00:30**
- **Cyflenwi alcohol ar yr eiddo: Sul-Sad 11:00-00:00**
- **Cerddoriaeth wedi recordio tu mewn: Sul-Sad 11:00-00:00**
- **Dim newid i amodau gorfodol**
- **Gwyrir yr amodau Atodlen Weithredol i gynnwys y canlynol: yn rhan (d), ychwanegir y geiriau canlynol "Er mwyn lleihau sŵn, ni fydd yr eiddo yn defnyddio yr ardal allannol ar ôl 18:00, bydd yr eiddo yn cadw drysau a ffenestri ynghau pan chwaraeir cerddoriaeth, a bydd lefel y sŵn yn gefndirol yn unig."**

Diolchwyd i'r holl bartïon â diddordeb am gyflwyno sylwadau ar y cais. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r sylwadau hyn, wrth nodi eu bod wedi eu gwneud mewn ymateb i'r cais gwreiddiol i wyro.

Derbyniwyd sylwadau gan drigolion lleol yn datgan pryder y byddai trosedd ac anrhefn yn debygol o godi os caniateir y cais. Tra bod yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y pryderon hyn yn rai diffuant, nid oedd tystiolaeth tu hwnt i ddyfalu wedi ei gyflwyno i gefnogi'r pryderon hyn. Yn absenoldeb y dystiolaeth, nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai caniatáu y cais yn tanseilio'r amcan o atal trosedd ac anrhefn.

Tra bod yr Is-bwyllgor yn derbyn bod yr eiddo yn agos i'r ffordd fawr, a bod gofod parcio o bosib yn gyfyngedig, nid oedd o'r farn bod y ffactorau hyn yn golygu o reidrwydd bod

bygythiad i ddiogelwch cyhoeddus. Ystyriwyd bod y caffi eisoes yn bodoli ar y safle gyda nifer eraill o fusnesau cyfagos. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth ddibynadwy bod problemau diogelwch cyhoeddus ar hyn o bryd ynghlwm â'r eiddo. Nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai caniatáu y cais yn tanseilio diogelwch cyhoeddus.

Derbyniwyd bod posibilrwydd y gallai sŵn fyddai yn tarfu o'r eiddo arwain at niwsans cyhoeddus. Ystyriwyd rhain yn bryderon diffuant gan nad oedd unrhyw dystiolaeth wrthrychol o ran nifer y digwyddiadau tebygol, eu hamledd, y lefel sŵn disgwyliedig na'r nifer a chanran o bobl y byddai'n effeithio yn y dalgylch wedi ei'u cyflwyno. O ganlyniad nid oedd tystiolaeth ddigonol i'r Is-bwyllgor fod yn fodlon y byddai caniatau'r cais yn debygol o arwain at sŵn fyddai mor broblemus nes cyrraedd y rhiniog cyfreithiol o "niwsans cyhoeddus". Ystyriwyd bod diwygiadau i'r cais yn golygu bod y risg o unrhyw sŵn o'r eiddo yn tarfu ar yr ardal gyfagos yn isel a'r diwygiadau yn ymateb i'r pryderon sŵn mewn modd rhesymol a chymesurol. O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y cais diwygiedig yn gydnaws â'r amcan o atal niwsans cyhoeddus.

Wrth dderbyn a deall yr awgrym bod gormod o eiddo trwyddedig yn y pentref, nid yw barn unigolion am niferoedd eiddo trwyddedig mewn ardal arbennig neu beidio yn ystyriaeth berthnasol i'r Is-bwyllgor wrth ystyried cais o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003. O ganlyniad diystyriwyd y sylwadau hyn wrth drafod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais i amrywio'r drwydded fel y'i diwygiwyd yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:20pm a daeth i ben am 4:00pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 26.11.20

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes a Steve Collings

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – DISTYLLFA ABER FALLS**

**Ar ran yr eiddo:** Christopher James Wright (Ymgeisydd)

**Eraill a wahoddwyd:** Ffion Muscroft – Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
Joan Underwood, Nicolette Whiting ac Ann Pennell (Ymgynghorai Lleol)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywio trwydded eiddo ar gyfer Distyllfa Aber Falls, Station Road, Abergwyngregyn. Gwnaed y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo, dangos ffilmiau, cerddoriaeth byw a wedi recordio, perfformiadau dawns a darparu lluniaeth hwyr y nos.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Amlygwyd, ers cyhoeddi'r adroddiad bod yr ymgeisydd wedi cytuno i oriau cyfyngedig ac felly ystyriwyd y cais fel un diwygiedig. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded. Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan nodi nad oedd gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân wrthwynebiadau. Roedd yr ymgeisydd hefyd wedi cytuno i amodau Adran Gwarchod y Cyhoedd o ran cyfaddawdu gyda'r oriau agor.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Ei fwriad oedd cydweithio gyda'r gymuned
- Nid bar oedd dan sylw ond Bistro gydag alcohol yn cael ei weini gyda bwyd yn unig. Y Bistro yn cynnwys ardal ar gyfer eistedd hyd at 35 o bobl
- Bydd digwyddiadau arbennig ar gyfer marchnata / hybu bwydydd a chynnyrch lleol yn cael eu cynnal yn y Ganolfan Groeso – bydd rhain yn ddigwyddiadau drwy wahoddiad yn unig
- Bydd y Ganolfan Groeso yn lwyfan i arddangos cynnyrch lleol
- Bod rheolau llym a canllawiau gweithredu yn eu lle i reoli niferoedd yn yr ardal cynhyrchu
- Bod defnydd o rybudd digwyddiad dros dro yn addas ar gyfer digwyddiadau arbennig
- Nid canolfan ar gyfer adloniant yw'r bwriad ond canolfan bwyd a diod

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiadau i ganiatáu trwydded gan ategu at sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr.

Joan Underwood

- Ei bod yn byw llai na 100 llath o'r Ddistyllfa
- Y fenter yn debygol o amharu ar ei ffordd o fyw - pryderon sŵn
- Bod y cais wedi ei gyflwyno heb yn wybod iddi a bod cyfathrebu yn anodd
- Byddai'n dymuo cael gwybodaeth am drefniadau cludo a dosbarthu gan ei bod yn rhannu mynedfa, ynghyd a gwybodaeth am ddigwyddiadau i'r dyfodol
- Bod golau o'r bistro y llachar gyda'r nos
- Bydd y pentref yn profi cynnydd mewn traffig ychwanegol - angen ystyried beth yw cyfyngiad yr isadeiledd

Nicolette Whiting

- Bydd llawer o loriau yn mynd nôl ac ymlaen ac felly yn effeithio ar drigolion y pentref
- Croesawu mynedfa i'r ddistyllfa yn unig – derbyn bod difrod llifogydd diweddar
- Angen amserlen casglu gwastraff
- Pryder am ddarpariaeth parcio a pharcio ar gyfer bysus - dim digon o le - os bydd maes parcio ychwanegol yn cael ei ddarparu, sut fydd mynediad iddo?
- A fydd niferoedd ymwelwyr i'r Bistro yn ychwanegol i'r nifer sydd yn cyrraedd mewn bysiau?

Ann Pullaman

- Bod angen cadarnhad cydymffurfiaeth gyda darpariaeth ar gyfer ystlumod

Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â nodyn hysbysu cais am drwydded, amlygodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd gorfodaeth o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 i anfon llythyrau (fel ym maes Cynllunio) i gymdogion. Ategwyd bod yr Uned Trwyddedu yn annog ymgeiswyr i ymgynghori.

d) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, bod yr ymgeisydd, yn dilyn trafodaethau, wedi cytuno cwtogi oriau agor a chyflenwi alcohol, tynnu oddi ar y cais cerddoriaeth byw, perfformiadau dawns a / neu unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg. Cytunwyd y bydd rhaid rhoi cais rhybudd digwyddiad dros dro os yn bwriadu cynnal gŵyl neu ddigwyddiad tebyg o'r fath, a bod angen adolygu polisi Iechyd a Diogelwch o ran trafnidiaeth a chwsmeriaid ar y safle. O ganlyniad, nid oedd gan yr Adran Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais diwygiedig.

dd) Wrth grynhoi ei achos ategodd yr ymgeisydd,

- Bod maes parcio bysiau ar gael, a bod trafodaethau gyda'r gymuned am fenter barcio i'r pentref
- Bod unrhyw 'barti' sydd yn cyrraedd ar fws wedi llogi ymlaen llaw.
- Niferoedd loriau cludo a dosbarthu - rhan fwyaf yn cludo yn wythnosol - bod modd darparu amserlen
- Ei fod yn barod i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau - angen cytuno yn lleol ar y dull gorau o gyfathrebu'r wybodaeth
- Bod y niferoedd yn cael eu rheoli yn effeithiol gyda'r drefn llogi yn cael ei wneud drwy'r wefan
- Bod arolwg ecolegol wedi ei gwblhau gyda bocsys wedi eu darparu ar gyfer ystlumod

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'r ymgynghorai o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

ff) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar a dderbyniwyd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i sylwadau'r Uned Iechyd Amgylcheddol. Yn dilyn argymhellion yr Uned penderfynodd yr ymgeisydd ddiwygio'r cais i ostwng oriau ar gyfer cyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi recordio a ffilmiau. Nid oedd bellach yn gofyn am drwydded ar gyfer cerddoriaeth fyw, perfformio dawns neu adloniant tebyg.

Derbyniwyd sylwadau gan drigolion lleol yn datgan pryder yn berthnasol i atal niwsans cyhoeddus yn nhermau llygredd golau a sŵn, yn enwedig mewn perthynas â digwyddiadau tu allan gydag adloniant a cherddoriaeth. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffiniad o ddigwyddiadau achlysurol ac y byddai hyn yn cynyddu traffic a chynhyrchu rhagor o sŵn ynghyd a pryderon yn nhermau sicrhau diogelwch cyhoeddus, oherwydd lleoliad cul y safle a'r cynnydd yn y nifer o draffig lorïau yn llwytho a dadlwytho nwyddau.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r sylwadau hyn, wrth nodi eu bod wedi eu gwneud mewn ymateb i'r cais gwreiddiol i amrywio'r drwydded. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y pryderon hynny wedi cael eu cyfarch yn ddigonol gan y newidiadau a wnaed i'r cais yn dilyn cyngor yr Uned Iechyd Amgylcheddol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais i amrywio'r drwydded fel y'i diwygiwyd yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu ac na fyddai yn arwain at broblemau o lygredd golau, sŵn neu gynnydd traffig i'r graddau bod yr amcanion o atal niwsans cyhoeddus a sicrhau diogelwch cyhoeddus wedi eu tanseilio. Nid oedd yr Is-bwyllgor wedi eu hargyhoeddi y byddai caniatáu'r drwydded yn tanseilio'r amcanion trwyddedu ac ni dderbyniwyd tystiolaeth y byddai rhoi'r drwydded yn arwain at gynnydd mewn sŵn.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:15pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 09.03.20

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – TŶ BEECHWOOD, BRIDGE STREET, DOLGELLAU**

**Ar ran yr eiddo:** Dean Hawkins (Ymgeisydd)
Llinos Rowlands (Cynllun Gwarchod Tafarndai / Perchennog Dylanwad Da)

**Eraill a wahoddwyd:** Ian Williams (Heddlu Gogledd Cymru)
Lis Williams (Heddlu Gogledd Cymru)
Mark Mortimer (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Croesawyd Lis Williams fel cynrychiolydd newydd Heddlu Gogledd Cymru gan y byddai Mr Ian Williams yn ymddeol o'r Heddlu. Diolchwyd i Mr Williams am ei wasanaeth a'i gefnogaeth a dymunwyd ymddeoliad iach a hapus iddo.

Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 10 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Tŷ Beechwood, Bridge Street, Dolgellau. Gwnaed y cais mewn perthynas ag eiddo ar gyfer siop drwyddedig a bar, drwy drawsnewid y llawr gwaelod. Y bwriad yw gwerthu alcohol oddi ar yr eiddo.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Amlygwyd, ers cyhoeddi'r adroddiad bod yr ymgeisydd wedi cytuno i oriau cyfyngedig ac felly ystyriwyd y cais fel un diwygiedig. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded. Tynnwyd sylw at un gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori oedd yn

mynegi pryder ar faterion gwrthgymdeithasol o ran sŵn, cwsmeriaid yn ysmygu tu allan ynghyd a materion glanweithdra y tu ôl i'r eiddo.

Nid oedd gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân wrthwynebiadau i'r cais ond roedd yr Heddlu wedi nodi sylwadau mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng. Roedd yr ymgeisydd hefyd wedi cytuno i amodau Adran Gwarchod y Cyhoedd o ran cyfaddawdu gyda'r oriau agor.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Mai ar gyfer digwyddiadau arbennig e.e., Sesiwn Fawr fyddai'r amseroedd ansafonol
- Ei fod yn derbyn yr amodau a gynigiwyd gan Adran Gwarchod y Cyhoedd a'i fod yn barod i gwtogi'r oriau agor
- Bod bwriad i greu bar o safon fel rhywle i ymlacio ac nid creu awyrgylch tŷ tafarn. Creu rhywbeth gwahanol yn y dref fel bod modd cadw pobl yn lleol a chyfrannu at yr economi leol.

Ategwyd y sylwadau canlynol gan Llinos Rowlands

- Bod cynlluniau'r fenter yn fanwl
- Bod y fenter yn ychwanegiad da i'r dref
- Byddai'r fenter yn cyflogi pobl leol ac yn cyfrannu at yr economi leol
- Bod modd gosod mwy o oleuadau a chamerâu teledu cylch cyfyng i leihau pryderon
- Bod cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i reoli yn dda

Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Swyddog o'r Heddlu nad oedd gan yr Heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais gan mai cais o'r newydd ydoedd. Derbyniwyd bod trafferthion wedi digwydd yn y gorffennol gyda thafarn 'The Stag Inn' ond bod y trafferthion hynny yn amherthnasol i'r eiddo dan sylw.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Ei fod yn fodlon gyda chynlluniau a threfniadau rheoli'r safle
- Bod amod Teledu Cylch Cyfyng wedi ei gynnwys ar y cais
- Bod yr oriau yn rhai rhesymol iawn

Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd bod trafodaethau a chydweithio da wedi digwydd gyda'r ymgeisydd a chyfaddawd wedi ei gytuno ynglŷn â'r oriau agor

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Bod amodau wedi eu gosod ar y cais
- Nad oedd caniatâd i gynnal digwyddiadau tu allan (dim lle)
- Byddai modd rheoli gwastraff drwy'r drefn cynllunio
- Bod y pryderon a fynegwyd yn y gwrthwynebiad yn cyfeirio at dafarndai eraill gerllaw

Wrth grynhoi ei achos ategodd yr ymgeisydd,

- Nad oedd mynediad i blant ar ôl 8pm – arwyddion i'w gosod yn hysbysu teuluoedd o'r rheolau
- Nad oedd mynediad i'r bar o'r storfa beics yn y cefn – mynediad i'r fflatiau uwchben yn unig
- Bod toiledau ychwanegol y cael eu gosod o fewn yr eiddo

c) Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'r ymgynghorai o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

d) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar a dderbyniwyd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

Wrth dderbyn pryderon perchennog busnes cyfagos am gynnydd mewn materion gwrthgymdeithasol o ran sŵn, cwsmeriaid yn ysmygu tu allan a materion glanweithdra tu ôl i'r eiddo, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi eu perswadio y byddai rhoi'r drwydded yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Ni chafwyd tystiolaeth y byddai rhoi'r drwydded yn arwain at gynnydd mewn sŵn, cwsmeriaid yn ysmygu a phroblemau glanweithdra ac felly yn achosi niwsans cyhoeddus.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais am drwydded fel y'i diwygiwyd yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:40am a daeth i ben am 12:15pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 18.12.19

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Elfed Williams (Cadeirydd), Edgar Owen a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Canolfan Garddio Camlan, Siop Fferm a Chaffi, Dinas Mawddwy, Machynlleth**

**Ar ran yr eiddo:** Mrs Lisa Allsop (Perchennog)

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Canolfan Garddio Camlan, Siop Ffarm a Chaffi, Dinas Mawddwy. Gwnaed y cais mewn perthynas ag eiddo sydd yn cynnwys siop fferm a chaffi yn gwerthu yn bennaf cynnyrch Cymreig, ffrwythau a llysiau. Y bwriad yw gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo ynghyd a chynnal oddeutu deuddeg o ddigwyddiadau dros dro megis nosweithiau bwyty, te prynhawn a digwyddiadau siopa yn hwyr y nos.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Nodwyd bod sylw wedi ei dderbyn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn awgrymu cynnwys amod i'r ymgeisydd leihau oriau sydd wedi eu datgan ar y ffurflen gais i 10:00 - 16:00 ar Ddydd Sul a Gwyliau'r Banc yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Derbyniwyd sylw hefyd gan breswylydd cyfagos yn mynegi pryder o ran sŵn yr hwyr.

Argymhellwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gytuno i gydymffurfio ag amodau cynllunio sydd wedi ei gosod gan y Parc Cenedlaethol.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei bod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Mai ar gyfer digwyddiadau arbennig (ee nosweithiau bwyty, digwyddiadau siopa yn hwyr y nos a the prynhawn) fyddai'r amseroedd ansafonol
- Ei bod yn derbyn yr amodau a gynigiwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac yn barod i gwtogi yr oriau agor
- Bod bwriad gwerthu cynnyrch Cymreig o safon yn y siop
- Nad oedd bwriad gwerthu alcohol rhad
- Bod modd rheoli'r sefyllfa parcio yn effeithiol. Bod parcio ychwanegol ar gael ar gyfer nosweithiau bwyty

c) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

d) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar yr ymgeisydd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

Derbyniwyd nad oedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gwrthwynebu'r cais ond yn argymell amodau mewn perthynas â chaniatâd cynllunio'r eiddo. Amlygwyd bod y caniatâd cynllunio yn cynnwys cyfyngiadau oriau oedd yn gwahardd yr eiddo rhag gweithredu tu allan i'r oriau 08:30 i 20:30 Llun i Sadwrn, a 10:00 i 16:00 ddydd Sul a Gwyliau Banc. Ac eithrio Gwyliau Banc, roedd yr oriau gwreiddiol a geisiwyd amdanynt yn ymddangos yn gydnaws ar oriau caniatâd cynllunio. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei bod yn diwygio'r cais am oriau agor ac oriau gwerthu alcohol ar Wyliau Banc o 10:00 i 16:00. Roedd hyn yn gyson â'r caniatâd cynllunio. Nodwyd na fyddai'r Is Bwyllgor yn cynnwys yr amserau ansafonol eraill ar y drwydded,, ond yn gwahodd yr ymgeisydd i ymgeisio am rybuddion digwyddiad dros dro (TEN) ar gyfer y digwyddiadau yn ôl y galw. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei bod yn cytuno â'r sylwadau.

Mewn ymateb i bryder preswylydd lleol y byddai sŵn yn deillio o'r eiddo gyda'r hwyr, amlygwyd nad oedd y cais yn gofyn am oriau hwyrach na 18:00, ac nad oedd cais am gerddoriaeth nac adloniant wedi ei gyflwyno. O ganlyniad roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai caniatáu'r drwydded yn arwain at broblem sŵn hwyr nos, ac y byddai'n gydnaws â'r amcan o atal niwsans cyhoeddus.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais am drwydded fel y'i diwygiwyd, gyda chynnwys yr amodau arfaethedig oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:10pm a daeth i ben am 12:45pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 05.11.19

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes a Jason Wayne Parry

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Rheilffordd Ffestiniog, Ffordd Santes Helen, Caernarfon**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Stephen Greig (Rheolwr Gorsaf Caernarfon)

**Eraill a wahoddwyd:** Mr Ian Williams, Heddlu Gogledd Cymru

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer gorsaf Rheilffordd Caernarfon, Ffestiniog a Rheilffordd Ucheldir Cymru, Ffordd Santes Helen, Caernarfon. Gwnaed y cais mewn perthynas ag adeilad aml-ddefnydd sydd yn cynnwys siop, swyddfa docynnau ar gyfer y rheilffordd a chaffi. Y bwriad yw gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo, dangos ffilmiau a dramâu, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, perfformiadau dawns ac adloniant tebyg.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Amlygwyd y byddai'r amcanion hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Nodwyd bod sylw wedi ei dderbyn gan Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu cynnwys amod i'r ymgeisydd osod system Teledu Cylch Cyfyng ar yr eiddo ynghyd ag ychwanegu cymal 'gyda 14 diwrnod o rybudd i'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol' yn adrannau A,B,E,F,G,H,J a L lle cyfeirir at 'amseroedd ansafonol'.

Argymhellwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Bod bwriad cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Mai ar gyfer digwyddiadau arbennig (ee teithiau trenau Y Nadolig, swper gwirfoddolwyr) fyddai amseroedd ansafonol
- Ei fod yn derbyn yr amodau a gynigiwyd gan yr Heddlu

c) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Swyddog o'r Heddlu nad oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais. Ategodd bod amodau wedi eu cynnig i'r ymgeisydd a bod angen ffurfioli'r amodau hynny. Cynigiwyd amod yn ymwneud a gosod teledu cylch cyfyng ar yr eiddo ynghyd ag ychwanegu cymal 'gyda 14 diwrnod o rybudd i'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol' yn adrannau A,B,E,F,G,H,J a L lle cyfeirir at 'amseroedd ansafonol'. Amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno derbyn yr amodau hyn ar y drwydded

d) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

dd) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar yr ymgeisydd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

a) Derbyniwyd nad oedd yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais ond yn argymell amodau ychwanegol mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng. Yn nhyb yr Is-bwyllgor roedd yr amodau hyn yn rai rhesymol a chymesurol ac yn gam rhyngweithiol tuag at hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn. Roedd yr ymgeisydd wedi cadarnhau ei fod yn cytuno â'r sylwadau.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais am drwydded fel y'i diwygiwyd, gyda chynnwys yr amodau arfaethedig oddi wrth yr Heddlu yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol.

**5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Sustainable Weigh, 13 Y Maes, Caernarfon**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Daniel John Hunt (ymgeisydd)

**Eraill a wahoddwyd:** Mr Ian Williams, Heddlu Gogledd Cymru

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Sustainable Weigh, 13 Y Maes, Caernarfon. Gwnaed y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol oddi ar yr eiddo. Ni fydd alcohol yn cael ei yfed ar yr eiddo.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Amlygwyd y byddai'r amcanion hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded

Nodwyd bod sylw wedi ei dderbyn gan Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu i'r ymgeisydd osod system Teledu Cylch Cyfyng ar yr eiddo a chyflwyno Cynllun Her 25 ynghyd a sylw gan y Gwasanaeth Tân yn nodi nad oeddynt yn gwrthwynebu'r cais ar y sail y bod y perchennog yn sicrhau golau argyfwng allanfa yn gweithio, bod y system larwm tân yn weithredol ac wedi ei wasanaethau, a bod y diffoddyddion tân wedi ei gwasanaethu ac yn gyfredol.

Argymhellwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Bod bwriad cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Bod 3 camera wedi ei gosod ar y safle
- Cadarnhaodd nad oedd alcohol i'w yfed ar y safle

c) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Swyddog o'r Heddlu nad oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais. Ategodd bod amodau wedi eu cynnig i'r ymgeisydd a bod angen ffurfioli'r amodau hynny.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

dd) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd,

sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar yr ymgeisydd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

Derbyniwyd nad oedd yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais ond yn argymell amodau ychwanegol mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng a chyflwyno Cynllun Her 25. Yn nhyb yr Is-bwyllgor roedd yr amodau hyn yn rai rhesymol a chymeserol ac yn gam rhyngweithiol tuag at hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn a gwarchod plant rhag newid. Roedd yr ymgeisydd wedi cadarnhau ei fod yn cytuno â'r sylwadau.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais am drwydded fel y'i diwygiwyd, gyda chynnwys yr amodau arfaethedig oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol.

**6. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – The Sandbar Restaurant, The Warren, Abersoch**

**Roedd y Cynghorwyr Elfed Williams a Jason W Parry wedi ymweld â'r safle o dan drefniant a goruchwyliaeth Heilyn Williams, Swyddog Trwyddedu 04.11.19**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol a chyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

| | |
|---|---|
| **Ar ran yr eiddo:** | Julian King, Haulfryn Group Ltd<br>Bobby McGee, Haulfryn Group Ltd<br>David John, Haulfryn Group Ltd<br>Matt Pressman, Haulfryn Group Ltd<br>Simon Conway, Haulfryn Group Ltd |
| **Eraill a wahoddwyd:** | Mr Ian Williams, Heddlu Gogledd Cymru<br>Ymgynghorai lleol – Mr Nigel Jackson |

**a) Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer gwerthu alcohol oddi ar yr eiddo, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio tu mewn a thu allan a darpariaeth lluniaeth hwyr y nos, saith diwrnod yr wythnos.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Amlygwyd y byddai'r amcanion hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Nodwyd bod sylw wedi ei dderbyn gan Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu i'r ymgeisydd osod system Teledu Cylch Cyfyng ar yr eiddo. Derbyniwyd 7 e-bost gan drigolion unedau preswyl gwyliau'r safle yn gwrthwynebu'r cais ar sail y pedwar amcan trwyddedu - atal trosedd ac anhrefn, atal niwsans cyhoeddus, sicrhau diogelwch cyhoeddus a gwarchod plant rhag niwed.

Adroddwyd nad oedd yr Awdurdod Trwyddedu wedi eu hargyhoeddi bod y cais yn cynnig digon o fanylion o ran y mesurau a fwriedi'r eu gweithredu i dawelu pryderon yr ymatebwyr o sicrhau nad yw'r amcanion trwyddedu yn cael eu tanseilio.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno. Dosbarthwyd lluniau o'r parc i'r Is-bwyllgor ar ymgynghorai i gynorthwyo gyda'r elfennau dan sylw.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Bod yr ymweliad safle wedi bod yn fuddiol
- Nad oedd Cyngor Cymuned Abersoch yn gwrthwynebu'r cais
- Eu bod yn derbyn amodau'r Heddlu o osod system Teledu Cylch Cyfyng ar yr eiddo
- Bod amodau a rheolau bwyty yn wahanol i reolau a safonau'r parc
- Bod mynediad i'r safle yn cael ei reoli 24 awr gan ddau swyddog diogelwch sydd yn gymwysedig gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- Bod man droseddau ac anrhefn yn cael eu hymdrin â hwy yn briodol
- Bod y maes parcio yn ddigonol
- Bod mwy o oleuadau wedi eu gosod ar y safle
- Byddai'r staff wedi eu hyfforddi ar gyfer gweithredu polisi Her 25
- Derbyn y sylw bod angen cyfathrebu newidiadau yn well gyda phreswylwyr
- Bydd y bwyty yn cael ei reoli yn effeithiol gan ganolbwyntio ar roi profiad da i ddefnyddwyr
- Nad oedd bwriad defnyddio'r bwyty ar gyfer cynnal digwyddiadau cerddoriaeth yn unig - digwyddiadau penodol fydd yn cael eu cynnal e.e., priodasau, parti Nos Galan
- Bod y bwyty yn agored i'r cyhoedd
- Bod caniatâd cynllunio at ddiben defnydd bwyty
- Ei fod yn barod i ystyried y gwrthwynebiadau ac yn croesawu deialog agored i geisio tawelu'r pryderon.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phryderon sŵn o'r bwyty gan y preswylwyr, cynigiwyd amodau rheoli sŵn gan gynrychiolydd yr ymgeisydd (petai'r drwydded yn cael ei chaniau).

- *Ni chaiff sŵn na dirgryniad ddeillio o'r eiddo fel ei fod yn tarfu'n afresymol ar bobl sydd yn y cyffiniau*
- *Bydd lefel y sŵn wedi'i fwyhau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r adloniant a ddarperir bob amser o dan reolaeth y trwyddedai / rheolwyr a gweithredir y system reoli o ran o'r eiddo nad yw'n hygyrch i'r cyhoedd.*

Croesawyd yr amodau fel cam rhyngweithiol i hyrwyddo'r amcan o atal niwsans cyhoeddus

Ategodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd yr Amgylchedd wedi cynnig sylwadau gan nad oeddynt wedi derbyn cwynion / tystiolaeth, ond yn gefnogol i'r amodau sŵn a gynigiwyd.

c) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar y gwrthwynebiadau i ganiatáu trwydded gan ategu at sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr. Dosbarthwyd lluniau o'r parc i'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i gynorthwyo gyda'r elfennau dan sylw.

Mr Nigel Jackson

- Nad oedd gwrthwynebiad i'r ymgeisydd gael trwydded, ond yn hytrach gwrthwynebiad i oriau gweithgareddau trwyddedig y cais
- Bod y lluniau a gyflwynwyd yn gamarweiniol. Er bod y maes parcio yn fawr o ran maint mae'n cael ei ddefnyddio fel ardal storio unedau preswyl neu garafanau
- Bod angen cysondeb gyda rheolau parc a rheolau'r bwyty.
- Bod maint y bwyty yn sylweddol fwy na maint y ciosg blaenorol oedd yn cael ei ddefnyddio fel bar
- Bod 9 seinydd wedi ei osod ar waliau allanol y bwyty
- Bod man droseddau ac anrhefn yn digwydd ar y safle ac y gall gynyddu gyda mynediad i'r cyhoedd
- Bod yr oriau trwyddedig yn annog awyrgylch o yfed a all arwain at broblemau o greu niwsans cyhoeddus. Pryder os na fydd y bwyty yn llwyddo fel bwyty yna hawdd fyddai cynnal bar gyda cherddoriaeth yn unig ar y safle.
- Y pryder mwyaf yw'r cynnydd mewn cwsmeriaid o du allan i'r Warren all arwain at gynnydd mewn niwsans cyhoeddus, effaith ar yr amgylchedd a defnydd y cyhoedd o'r safle.

ch) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Swyddog o'r Heddlu nad oedd gan yr Heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais gan mai cais o'r newydd ydoedd. Amlygodd bod 11 digwyddiad wedi cael ei gofnodi ar gyfer The Warren ond nid oeddynt yn gysylltiedig â'r eiddo dan sylw. Ategodd ei fod wedi ymweld â'r safle ac wedi trafod amodau teledu cylch cyfyng gyda'r ymgeisydd.

d) Wrth grynhoi eu hachos nododd yr ymgeisydd sylwadau canlynol;

- Bod modd trefnu nad yw'r maes parcio yn cael ei ddefnyddio fel storfa
- Bod y ciosg blaenorol gyda thrwydded hyd at hanner nos
- Nad oedd bwriad rhedeg y safle fel safle yfed
- Na fydd mynediad ar ôl 11pm i brynu na gwerthu alcohol
- Y bwriad yw rhedeg bwyty
- Bod y cwmni wedi ei sefydlu ers 1935 gyda chysylltiad iach gyda'r gymuned leol - y bwriad yw parhau i gydweithio yn gyfrifol gyda'r gymuned leol.
- Bod buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud i gynnal a gwella'r parc gwyliau moethus
- Bod gobaith ymestyn y tymor i 12 mis
- Bydd y bwyty yn cyflogi hyd at 24 person yn y cyfnodau prysuraf

- Bod bwriad cynnig profiad da mewn lleoliad arbennig
- Bod gan y cwmni enw da i'w warchod

Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â chydweithio yn gyfrifol amlygodd y gwrthwynebydd bod y cwmni wedi codi'r ffioedd blynyddol ar gyfer adeiladu'r bwyty gyda dealltwriaeth y bydd disgownt ar ddiwedd y cyfnod adeiladu. Nid yw hyn bellach yn gywir ac felly yn enghraifft o weithredu anghyfrifol. Adroddwyd hefyd bod 4 achos o drwydded dros dro wedi ei chaniatáu a bod un o'r digwyddiadau hynny wedi ei cynnal heb drwydded. Dadleuwyd os na all y cwmni gydymffurfio a rheolau trwydded dros dro a ydynt yn haeddiannol o drwydded lawn.

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd yr ymgeisydd nad oedd unrhyw dor cyfraith na diffyg cydymffurfio gyda rheolau trwydded dros dro. Ategwyd nad oedd tystiolaeth i gefnogi'r cyhuddiad a bod y sylw felly yn cael ei wrthbrofi. Nododd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd unrhyw gwyn wedi dod i law ac y byddai'n chwilio am sicrwydd bod yr ymgeisydd yn cydymffurfio gyda gofynion y drwydded

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

dd) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar cynrychiolydd yr ymgeisydd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

Ystyriwyd nad oedd sylwadau'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais ond yn argymell cynnwys amodau safonol mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng. Cynigiwyd yr amod hyn er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn a chadarnhawyd bod yr ymgeisydd yn gytûn.

Nid oedd yr Is-bwyllgor yn gwadu'r posibilrwydd y gallai rhoi'r drwydded arwain at gynnydd mewn cwsmeriaid, gan gynnwys cwsmeriaid o du allan i safle'r Warren. Ni ellir gwadu chwaith y posibilrwydd y gallai rhai o gwsmeriaid droseddu ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol, gan danseilio'r amcan o atal trosedd ac anhrefn. Yn yr un modd ni ellid gwadu'r posibilrwydd y gall rhoi'r drwydded arwain at broblemau sŵn a cherddoriaeth uchel gan danseilio'r amcan o atal niwsans cyhoeddus.

Fodd bynnag, ni chyflwynwyd tystiolaeth gadarn o'r nifer, dwysedd, amledd o'r digwyddiadau tebygol o droseddu neu gwynion sŵn pe rhoddir y drwydded. O ganlyniad, anodd yw i'r Is-bwyllgor ragweld os yw'r problmau yn debygol o gyrraedd y rhiniog o gyfri fel problem trosedd ac anhrefn neu "niwsans cyhoeddus" o dan gyfraith gwlad. Nid oedd yr Is-bwyllgor, ar sail y dystiolaeth ddaeth i law yn credu y byddai caniatáu'r drwydded yn debygol o danseilio'r amcanion o atal trosedd ac anhrefn, ac atal niwsans cyhoeddus. Ategwyd y byddai'r amodau rheoli sŵn a gynigiwyd gan yr ymgeisydd yn lleihau unrhyw risg o sŵn yn deillio o'r eiddo.

Ymysg y gwrthwynebiadau, amlygwyd bod rheolau yn rhwymo'r preswylfeydd a'r safle'r

Warren. Roedd y rheolau hyn yn cynnwys gwahardd sŵn rhwng 23:00 a 08:00 (rheol 19), a gwahardd yfed alcohol yn gyhoeddus (rheol 20). Tra bod yr Is-bwyllgor yn derbyn bodolaeth y rheolau hyn, nid oeddynt yn sail i wrthod y drwydded. Penderfyniad yr Is-bwyllgor yw sicrhau bod oriau a gweithgareddau trwyddedig y drwydded yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu. Amlygwyd na all rheolau sydd wedi eu pennu gan drydydd parti, rheolau nad yw'r Is-bwyllgor yn gwybod pa ystyriaeth wrthrychol a roddwyd i amcanion trwyddedu pan gawson nhw eu cyflwyno cael eu hystyried. Ategwyd nad oedd tystiolaeth wedi dod i law bod bwriad i'r rheolau hyn rwymo'r eiddo ei hun ac fel y nodwyd gan gynrychiolydd yr ymgeisydd, roedd y bwyty dan sylw o natur cwbl wahanol i'r preswylfeydd.

Yng nghyd-destun tanseilio'r amcan o sicrhau diogelwch cyhoeddus nid oedd yr Is-bwyllgor wedi derbyn unrhyw dystiolaeth tu hwnt i ddyfalu, y byddai rhoi'r drwydded yn tanseilio'r amcan. Adroddwyd bod gan yr eiddo ganiatâd cynllunio ar gyfer ei ddefnydd bwriedig fel bwyty ac y byddai diogelwch mynediad wedi ei gyfarch fel rhan o'r broses cynllunio. Nodwyd y byddai unrhyw bryderon diogelwch cyhoeddus wedi eu trafod gyda'r Adran Priffyrdd, yr Adran Gynllunio neu'r Heddlu ac roedd diffyg sylwadau'r cyrff hynny yn awgrymu'n gryf na fyddai goblygiadau difrifol i ddiogelwch cyhoeddus. Atgoffwyd yr Aelodau bod cynrychiolydd yr ymgeisydd wedi amlygu'r bwriad o gynyddu capasiti'r maes parcio fyddai yn nhyb yr Is-bwyllgor yn lleihau unrhyw bryderon.

Yn yr un modd, nid oedd tystiolaeth ddibynadwy wedi dod i law i gefnogi'r ddadl y byddai caniatau y drwydded yn rhoi plant mewn niwed. Unwaith eto, eglurwyd nad gwaith yr Is-bwyllgor oedd dyfalu'r effaith - gellid mesur yr amodau pan fydd yr eiddo yn weithredol. Os daw cwynion i law bod yr amodau yn aneffeithiol, yna gellid dwyn y drwydded gerbron Is-bwyllgor o dan gais i wyro neu adolygu'r drwydded. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr amodau a gynigiwyd gan yr eiddo yn ddigonol i ddiogelu'r amcan o amddiffyn plant rhag niwed. Yn ychwanegol, byddai unrhyw ymgais i brynu alcohol dan-oed yn cael ei gyfarch gan yr eiddo drwy weithredu Cynllun Her 25 yn unol â'r atodlen weithredol a gyflwynwyd gyda'r cais.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais, gyda'r amodau rheoli sŵn a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn y gwrandawiad, ynghyd â'r amodau a argymhellwyd gan yr Heddlu, yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol ynghyd a'r hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon o fewn cyfnod 21 diwrnod o dderbyn llythyr y cyfreithiwr.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:10am a daeth i ben am 13:05pm

â

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 20.09.19

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Elfed Williams (Cadeirydd), Edgar Owen a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Alun Roberts (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Yr Hwb, Ysgubor Isaf, Lon Cariadon, Y Bala, Gwynedd**

**Ar ran yr eiddo:** Ms Zoe Rachel Hansford Smith (Ymgeisydd)
Mared Llwyd (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod Y Cyhoedd)
Mr Ian Williams, Heddlu Gogledd Cymru

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Yr Hwb, Ysgubor Isaf, Lôn Cariadon, Y Bala. Gwnaed y cais mewn perthynas ag adeiladu caffi sy'n cynnwys gardd/ ardal eistedd tu allan, canolfan gweithgareddau awyr agored, ardal chwarae' soft play' a chanolfan digwyddiadau. Y bwriad yw gwerthu alcohol ar yr eiddo, dangos ffilmiau a dramâu, cerddoriaeth fyw wedi ei recordio, perfformiadau dawns a gwerthiant alcohol.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Amlygwyd y byddai'r amcanion hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Nodwyd bod dau sylw wedi ei derbyn, un gan Uned Gwarchod y Cyhoedd oherwydd pryderon y byddai caniatáu adloniant tu allan i'r eiddo yn creu niwsans sŵn i drigolion lleol ac un sylw gan Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu i'r ymgeisydd osod system Teledu Cylch Cyfyng ar yr eiddo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.

- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei bod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Bod bwriad cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Bod bwriad cynnal gŵyl fwyd / gŵyl gwrw / marchnad cynnyrch fferm ar y lleoliad ynghyd a dangos ffilmiau a chyflwyniadau theatr
- Bod bwriad treialu cerddoriaeth fyw ar brynhawn Sul
- Petai ddigwyddiad tu allan i oriau trwyddedig yn cael ei drefnu, y byddai yn gwneud cais am drwydded dros dro.

c) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Swyddog o'r Heddlu nad oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais ac nad oedd cwynion wedi dod i law'r Heddlu yn dilyn digwyddiadau ar y safle. Ategodd bod amodau wedi eu cynnig i'r ymgeisydd a bod angen ffurfioli'r amodau hynny. Cynigiwyd amod yn ymwneud a gosod teledu cylch cyfyng ar yr eiddo ynghyd a gweithredu cynllun Her 25. Amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno derbyn yr amodau hyn ar y drwydded

ch) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Swyddog Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd bod cyfaddawd wedi ei gyrraedd gyda'r ymgeisydd yn dilyn cais gan yr Adran i leihau oriau holl adloniant rheoledig tu allan i'r adeilad. Cytunwyd bod yr oriau yn cael eu haddasu i 9:00 - 19:30 (Llun i Sul). Yn dilyn cyfaddawd, cadarnhawyd nad oedd gan yr Uned wrthwynebiad i'r cais, ond argymhellwyd bod amodau sŵn i'w cynnwys ar y drwydded.

d) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

dd) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar yr ymgeisydd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

e) Ystyriwyd nad oedd sylwadau'r Heddlu a Gwarchod y Cyhoedd yn gwrthwynebu'r cais ond yn argymell cynnwys amodau ychwanegol mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng, Cynllun Her 25 a rheolaeth sŵn. Cynigiwyd yr amodau hyn er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn, gwarchod plant rhag niwed ac atal niwsans cyhoeddus. Roedd yr ymgeisydd wedi cadarnhau ei bod yn cytuno â'r argymhellion hyn ynghyd â diwygio'r drwydded i amlygu adloniant tu allan o 09:00 i 19:00 bob dydd.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais am drwydded fel y'i diwygiwyd, gyda chynnwys

yr amodau arfaethedig oddi wrth yr Heddlu a Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd yn gydnaws â'r amcanion trwydded.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol.

**5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Yr Hen Gwrt, Caernarfon**

**Ar ran yr eiddo:** Ms Moira Hartley (ymgeisydd)
Mr Ian Williams, Heddlu Gogledd Cymru

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Yr Hen Lys, Pen Deitch, Caernarfon. Gwnaed y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol oddi ar ac ar yr eiddo; dangos ffilmiau a dramâu; cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, unrhyw adloniant arall a lluniaeth hwyr y nos.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Amlygwyd y byddai'r amcanion hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded

Nodwyd bod dau sylw wedi ei derbyn, un gan Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu i'r ymgeisydd osod system Teledu Cylch Cyfyng ar yr eiddo a defnydd goruchwylwyr drysau ac un gan y Gwasanaeth Tan.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei bod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno.

Ategodd y sylwadau canlynol:
- Bod bwriad cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Ei bod yn derbyn awgrym gan yr Heddlu i ddefnyddio goruchwylwyr drysau ar gyfer digwyddiadau unigol yn unig
- Bod ymweliad safle gyda'r Gwasanaeth Tân a Swyddog Stadau'r Cyngor wedi bod yn fuddiol
- Bod angen cynnal trafodaethau pellach ar oleuo'r llwybr dianc
- Bod dodrefn yn cael ei osod ar y stryd er mwyn denu cwsmeriaid i'r adeilad

c) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, amlygodd Swyddog o'r Heddlu nad oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais. Ategodd bod amodau wedi eu cynnig i'r ymgeisydd a bod angen ffurfioli'r amodau hynny. Cynigiwyd amod yn ymwneud a gosod teledu cylch cyfyng ar yr

eiddo ynghyd a defnydd goruchwylwyr drysau. Amlygwyd, bod yr ymgeisydd yn Adran M (b) o'r cais yn datgan 'Licensed door supervisors on duty for all events'. Nodwyd bod yr Heddlu o'r farn nad oes angen goruchwylwyr drysau ar gyfer pob digwyddiad oherwydd natur y digwyddiadau fydd yn cael eu cynnal yn yr adeilad. O ganlyniad, byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd asesu digwyddiadau unigol cyn penderfynu os oes angen goruchwylwyr drysau. Cynigiwyd yr amod, *'Each event will be risk assessed to establish whether door supervisors are required'.* Awgrymwyd bod amod ynglŷn â gweithredu Her 25 yn hytrach na Her 21 yn cael ei gynnwys ar y drwydded. Cadarnhawyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno derbyn yr amodau hyn ar y drwydded.

ch) Adroddwyd bod yr ymateb gwreiddiol gan y Gwasanaeth Tân wedi ei dderbyn 16 Awst yn datgan nad oedd yr eiddo yn cydymffurfio â rhagofalon tân; yn benodol gan fod y llwybr dianc mewn argyfwng yng nghefn yr adeilad yn arwain at giât wedi ei gloi tu ôl i adeiladau Pencadlys y Cyngor. Yn dilyn archwiliad safle gyda'r ymgeisydd a Swyddog Stadau'r Cyngor 21 Awst, derbyniwyd cadarnhad fod y Gwasanaeth Tân yn tynnu eu gwrthwynebiad i'r cais yn ôl. Cafwyd cytundeb gan y Swyddog Stadau i wneud newidiadau i banel ffens fel bod modd ei agor yn hawdd heb ddefnydd goriad. Byddai hyn yn sicrhau llwybr dianc clir mewn argyfwng tân.

Mewn ymateb i bryder yr Aelodau ynglŷn â'r llwybr dianc, nododd yr ymgeisydd bod bwriad cynnal trafodaethau pellach ynglŷn â goleuo'r llwybr sydd wëid ei leoli tu ôl i adeiladau'r Cyngor.

d) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

dd) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar yr ymgeisydd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

Ystyriwyd nad oedd sylwadau'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais ond yn argymell cynnwys amodau ychwanegol mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng, Cynllun Her 25 a goruchwyliaeth drysau. Cynigiwyd yr amodau hyn er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn ac i warchod plant rhag niwed a chadarnhawyd bod yr ymgeisydd yn gytûn. Ni ystyriwyd sylwadau Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru oherwydd iddynt gael eu tynnu'n ôl.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais am drwydded fel y'i diwygiwyd, gyda chynnwys yr amodau arfaethedig oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:50pm a daeth i ben am 16:00pm

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 15 Mawrth 2021 |
| TEITL: | EFFAITH YR ARGYFWNG COVID 19 AR WASANAETHAU TRWYDDEDU |
| PWRPAS: | ER GWYBODAETH |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae’r Uned Drwyddedu yn gweinyddu a gorfodi’r gyfraith mewn ystod eang ac amrywiol o fusnesau.

1.2 Fe weithredir trwyddedau yn y meysydd â ganlyn er mwyn gwarchod defnyddwyr, busnesau a chymunedau Gwynedd rhag unrhyw effeithiau andwyol; ac yn cymryd camau gorfodaeth lle mae hynny yn ofynnol er mwyn cadw defnyddwyr y gwasanaethau trwyddedig yn ddiogel.

- Trwyddedau alcohol ac adloniant (yn cynnwys digwyddiadau) a gamblo.
- Trwyddedau Personol (alcohol)
- Trwyddedau anifeiliaid yn cynnwys siopau anifeiliaid anwes, sefydliadau marchogaeth a sefydliadau bridio cŵn.
- Cerbydau, gyrwyr a gweithredwyr tacsis.
- Safleoedd carafanau
- thrwyddedu delwyr metel sgrap.

1.3 Dengys y tabl isod faint o’r amrywiol drwyddedau sydd yn cael eu gweinyddu a gorfodi ar draws y Sir ar hyn o bryd -

| Nifer trwyddedau | |
|---|---|
| 1,001 Eiddo Alcohol | 66 Eiddo Gamblo |
| 301 Cerbyd a 503 Gyrrwr Tacsi | 35 Trwyddedau Anifeiliaid |
| 477 Safleoedd Carafanau | 26 Delwyr Metel Sgrap |

## 2. EFFAITH YR ARGYFWNG COVID 19 AR WASANAETHAU TRWYDDEDU

2.1 Ers mis Mawrth 2020, mewn ymateb i’r argyfwng pandemig Covid, mae’r gwasanaeth wedi gorfod addasu a blaenoriaethu er mwyn cyfrannu at yr ymdrech o reoli ymlediaeniad yr haint Covid-19.

2.2 Mae swyddogion y gwasanaeth Trwyddedu wedi bod yn gweithredu rôl llawer ehangach oddi fewn i wasanaethau gwarchod y Cyhoedd yn ystod cyfnod y Pandemig. Mae hyn oherwydd bod gymaint o swyddogion yr Unedau eraill fel yr Uned Bwyd ac Iechyd a Diogelwch wedi cael eu hailgyfeirio bron yn gyfan gwbl i waith ymatebol a rhoi arweiniad mewn perthynas â chlystyrau heintiau Covid mewn ysgolion, cartrefi henoed a sefydliadau a gweithleoedd eraill.

2.3 Fe sefydlwyd y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Darganfod achosion Covid-19 yn gychwynnol gan swyddogion yr Uned Bwyd ac Iechyd a Diogelwch , ac mae swyddogion y gwasanaeth Trwyddedu a rheoli llygredd wedi bod yn ymateb i wybodaeth sydd yn deillio o ddata'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Darganfod .

2.4 Golyga hyn fod swyddogion Gorfodaeth oddi fewn i'r Uned Trwyddedu a Rheoli Llygredd wedi bod yn ymateb i gwynion diffyg cydymffurfiad gyda rheoliadau covid mewn amrywiaeth o eiddo nad ydynt yn drwyddedig yn ogystal ag eiddo trwyddedig fel tafarndai, bwytai a meysydd carfannau.

2.5 Mae'r Cyhoedd a busnesau wedi ei chael yn anodd dygymod gyda'r newidiadau cyson yn y rheolau; ac mae swyddogion y gwasanaeth wedi bod yn allweddol yn cynghori busnesau ar sut i addasu er mwyn cadw pawb yn ddiogel; yn enwedig wrth i'r busnesau lletygarwch ail agor dros yr Haf.

2.6 Mae'r Uned Datblygu Marchnata a Thwristiaeth o'r adran Economi a Chymuned wedi bod yn gweithio yn agos gyda'n swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn gyrru gwybodaeth gyfredol ar y rheoliadau i fusnesau drwy fwletinau gwybodaeth sydd hefyd yn cynnwys yr arweiniad diweddaraf ar gefnogaeth ariannol.

2.7 Mae swyddogion wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda'r Heddlu drwy gydol y pandemig; gan rannu gwybodaeth allweddol er mwyn atal ymledaeniad Covid. Fe gynhaliwyd patrolau rhagweithiol rheolaidd ar y cyd i bentrefi a threfi poblogaidd yn ystod Haf, 2020 yn ogystal ag i Fangor a Gaernarfon gyda'r nos ac ar benwythnosau - er mwyn rhoi cyngor i fusnesau a chwsmeriaid ar y rheoliadau. Roedd ymateb positif i hyn, gan fod y rheoliadau yn newid mor aml, roedd yn ffordd effeithiol o ddarganfod pa fesurau oedd yn achosi mwyaf o broblemau i fusnesau.

2.8 Er bod busnesau trwyddedig ar y cyfan wedi ymdrechu i gydymffurfio o dan amgylchiadau hynod o anodd; mae rhai busnesau wedi anwybyddu'r rheoliadau; ac mae swyddogion wedi gorfod gyrru rhybuddion anffurfiol a ffurfiol gan gynnwys 8 Rhybudd Gwella Eiddo o dan reoliadau Coronafirws Llywodraeth Cymru. Mae un siop hwylus wedi derbyn rhybudd cau hefyd.

## 3. GWAITH ARFEROL YR UNED DRWYDDEDU

3.1 Fel llawer iawn o wasanaethau cyhoeddus eraill; dydi'r Uned Drwyddedu ddim yn eithriad yn y ffaith fod ein gallu i ddarparu rhai gwasanaethau 'arferol' wedi bod yn heriol, ac mae'r cyfyngiadau wedi golygu nad ydym wedi bod yn gallu gwneud rhai pethau; neu wedi gorfod addasu i wneud pethau mewn ffordd wahanol.

3.2 Mae cynnal system o drwyddedu unigolion a busnesau yn hanfodol er mwyn sicrhau Iechyd a Diogelwch safonau uchel a chyson; a thegwch a gwasanaeth dda i'r Cyhoedd. Oherwydd hyn; mae'r amrywiol gyfundrefnau Trwyddedu a weinyddir yn wasanaethau statudol; ac rydym wedi gorfod gweithio mewn ffordd wahanol dros y misoedd diwethaf er mwyn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn unol â'r gyfraith.

3.3 Mae'r swyddogion Trwyddedu wedi bod yn cynnal cyfweliadau a phrofion gydag ymgeiswyr yn rhithiol; mae archwiliadau gorfodaeth hyd yn oed wedi digwydd yn rhithiol ambell waith oherwydd y risgiau o gyfarfod wyneb yn wyneb. Fel y gwyddoch; mae gwrandawiadau'r Is Bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a Chanolog wedi bod yn digwydd yn rhithiol ers Gorffennaf 2020, gydag amryw o geisiadau tacsi , eiddo ac un Adolygiad Trwydded eiddo wedi derbyn penderfyniad gan aelodau'r Pwyllgor hwn.

3.4 Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn y flwyddyn o Rybuddion Digwyddiadau Dros dro wedi bod am resymau amlwg; ond mae 108 o amrywiol drwyddedau eiddo a thrwyddedau personol wedi eu prosesu ers y 1af o Ebrill 2020, a 341 o amrywiol geisiadau trwyddedau tacsis.

## 4. SYMUD YMLAEN I'R CYFNOD NESAF

4.1 Dengys profiadau flwyddyn ddiwethaf fod dod allan o gyfnod clo yn arbennig o heriol ac fe fydd llwyth gwaith y gwasanaeth yn cynyddu yn sylweddol dros yr wythnosau nesaf eto , fel y bydd busnesau yn ceisio addasu yn unol â'r gofynion , er mwyn ceisio cadw pobl yn ddiogel; ac osgoi cyfyngiadau llymach eto.

4.2 Mae ein swyddogion yn barod unwaith eto i gefnogi busnesau , a defnyddio pwerau Gorfodaeth pan fydd raid. Fe fyddwn yn gweithio yn agos eto gydag adrannau eraill, a'r Heddlu gan ymdrechu i gadw proffil uchel yn ein cymunedau. Mae tri swyddog ymgysylltu wedi eu penodi dros dro i'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Darganfod; ac fe fyddent yn cefnogi gwaith ein swyddogion Gorfodaeth allan yn y cymunedau; gan godi ymwybyddiaeth lle mae angen.

4.3 Mae Rhaglen Brechu Llywodraeth Cymru a'r DU wedi bod yn arbennig o effeithiol hyd yn hyn; ond ni fydd yn cael gwared â'r risgiau i Iechyd yn gyfan gwbl, ac fe fydd rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth ail agor eiddo trwyddedig fel tafarndai a chlybiau nos.

4.4 Rhagwelir y bydd llawer o geisiadau i amrywio trwyddedau eiddo yn cael eu derbyn; fel y bydd busnesau yn ceisio addasu gofod tu mewn a thu allan er mwyn gallu gweithredu'n ddiogel.

4.5 Mae'r Llywodraeth yn ystyried yn ofalus; ac yn cymryd cyngor gan y Gwyddonwyr o ran beth i'w wneud ynglŷn â chynnal digwyddiadau mawr. Deallir fod digwyddiadau 'arbrofol ' yn cael eu cynnal mewn rhai siroedd , megis Conwy, lle fydd digwyddiad trwyddedig yn cael ei gynnal; gyda goruchwyliaeth ofalus o ran effaith ar ymledaeniad yr haint. Mae Gwynedd wedi bod yn lleoliad poblogaidd iawn ar gyfer digwyddiadau o bob math yn y gorffennol; ac fe fyddwn yn disgwyl am arweiniad pellach gan y Llywodraeth o ran pryd fydd yn ddiogel i ail gychwyn cynnal digwyddiadau yn ein Sir.

4.6 Fe fydd hefyd yn ofynnol i adolygu dogfennau polisi dros y 12 mis nesaf; gan gychwyn gyda'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu , o dan y Deddf Drwyddedu 2003.
Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Trwyddedu adolygu 'r polisi bob tair blynedd. Mae Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd wedi cyrraedd cyfnod adolygiad; ac rydym wedi bod yn gweithio i gysoni newidiadau bychan i'r Polisïau drafft ar draws Gogledd Cymru. Pan fydd y sefyllfa yn caniatáu , fe fyddwn yn edrych i gyflwyno'r Polisi drafft newydd i'r Pwyllgor, cyn ymgynghoriad cyhoeddus dros yr Haf.